Arolygu darpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol

Adroddiad meithrin ar Cylch Meithrin y Gelli

Arolygydd Addysg Feithrin Cofrestredig: Martin Cray

Dyddiad yr arolygiad: 3 / 4 Chwefror 2010 (boreau)

Rhif y Contract: T/059/09N

Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Adroddiad ar arolygu lleoliadau meithrin yn y sector nas cynhelir

Enw'r feithrinfa: Cylch Meithrin y Gelli

Cyfeiriad: Ysgol y Gelli
Ffordd Bethel
Caernarfon
Gwynedd

Cod Post: LL55 1DU

Ffôn: 01286 673043

Person sy'n gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd: Awen Morris

Swydd: Arweinydd

Ynglŷn â'r arolygiad

Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol yng Nghymru. Fe'i comisiynwyd gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion er mwyn i ddarparwyr allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a helpu plant i gyflawni eu llawn botensial. Diben arall yw hysbysu rhieni a'r cyhoedd am ansawdd addysg feithrin. Rhaid rhoi copi o'r adroddiad arolygu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y feithrinfa a dylai fod ar gael ar gais i bobl eraill.

Mae arolygwyr wedi defnyddio graddfa pum pwynt i gofnodi'r holl farnau. Dyma'r diffiniadau graddau:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

1.0 Cyd-destun y lleoliad

Cyd-destun lleoliad y feithrinfa:
Cynhelir y Cylch Meithrin cyfrwng Cymraeg hwn, sydd yn gwasanaethu ardal tref hanesyddol Caernarfon mewn adeilad pwrpasol ar safle Ysgol y Gelli ar gyrion dwyreiniol y dref. Mae'r plant yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd, gyda rhai yn cael eu cyfeirio gan ymwelwyr iechyd. Nid yw'r ardal yn cael ei hystyried yn arbennig o ffyniannus.

Rheolir y lleoliad gan bwyllgor gwirfoddol ac mae'n ddarparydd addysg fel aelod o Bartneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Gwynedd. Mae hefyd yn aelod cofrestredig o Mudiad Ysgolion Meithrin.

Mae'r lleoliad yn cynnig addysg feithrin am bum diwrnod yr wythnos. Darperir ar gyfer plant dwy flwydd a hanner i bedair oed ac adeg yr arolygiad roedd cyfanswm o wyth o blant ar y gofrestr yn mynychu'r amrywiol sesiynau boreol. Mae chwech wedi cyrraedd eu penblwyddi yn dair oed a dau yn ddwy a hanner. Caiff tri phlentyn lefydd wedi eu hariannu dan drefniadau'r Bartneriaeth leol.

Yn ei ail sesiwn ddyddiol, rhwng 11.15 a 3.00 o'r gloch, mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer y plant pedair oed sydd yn mynychu'r boreau yn Ysgol y Gelli, gyda'u rhieni yn talu am eu llefydd.

Cynhaliwyd yr arolygiad ar foreau'r 3ydd a'r 4ydd o Chwefror 2010.

Cymraeg yw'r iaith a siaredir yng nghartrefi tua hanner y plant.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer lleiafrifoedd ethnig, ac mae'n medru darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ond adeg yr arolygiad nid oedd neb felly ar y gofrestr.

Cynhelir y gweithgareddau mewn un ystafell o faint da ac mae yna gegin a thoiledau ar wahân. Ceir hefyd ardal chwarae caeedig y tu allan.

Caiff y lleoliad ei staffio gan arweinydd sydd â chymhwyster athrawes, ynghyd â dwy gymhorthydd sydd â chymwysterau priodol ar gyfer gweithio gyda phlant yn y Blynyddoedd Cynnar. Mae un ohonynt yn gweithio rhan amser.

Ar ôl gadael y lleoliad, trosglwydda'r plant i Ysgol y Gelli gerllaw.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Chwefror 2008. Dyma'r arolygiad cyntaf ohono gan Estyn.

2.0 Prif ganfyddiadau'r adroddiad

2.1 Ansawdd a safonau cyffredinol darpariaeth addysgol a ph'un a yw'r ddarpariaeth yn hyrwyddo'r nodau ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus ai peidio

Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol yn briodol ac yn hyrwyddo Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus.

2.2 Safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

Chwe maes dysgu	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	2
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	2
Datblygiad mathemategol	2
Datblygiad yn y Gymraeg	Amherthnasol
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	2
Datblygiad corfforol	2
Datblygiad creadigol	2

2.3 Barn arolygu ar ansawdd yr addysg a ddarperir gan y lleoliad

Ansawdd yr addysg	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant	2
Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant	2
Ansawdd yr addysgu	2
Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant, ac adroddiadau ar gyfer rhieni a gofalwyr	2
Ansawdd y berthynas gyda rhieni, gofalwyr a'r gymuned	3
Y cyfraniad a wneir gan y lleoliad i les plant	2
Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad	2
Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf	Amherthnasol i'r arolygiad hwn

3.0 Y safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

Safonau a gyflawnir gan blant 3-4 oed

3.1 Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Mae plant yn cyflawni safonau da yn eu datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae pob un o'r plant yn hapus ac wedi setlo i mewn yn dda. Maent yn barod iawn i ddewis gweithgareddau yn ddiffwdan ac yn arddangos hyder cynyddol wrth eu gwaith.

Yn ddieithriad, maent yn arfer lefelau da o hunanreolaeth ac yn dechrau deall pwysigrwydd rhannu gydag eraill, ac i aros tro mewn tasgau grŵp fel coginio bisgedi.

Mae ganddynt berthynas dda a'i gilydd a gydag oedolion. Cânt fwynhad yn sgwrsio gyda'i gilydd adeg cyfnodau byrbryd.

Mae bron bob un o'r plant yn llwyddo i ganolbwyntio yn dda ac i ddyfalbarhau yn ystod gweithgareddau fel addurno bisgedi gydag eisin a losin bychan.

Mae'r plant i gyd yn dangos annibyniaeth gynyddol o ran hylendid personol ac maent yn barod iawn i ofyn am gymorth os oes angen.

Ymatebant yn gadarnhaol iawn i amrywiaeth o brofiadau diwylliannol newydd, ac mae gan y rhai hynny sydd o gefndir ieithyddol Saesneg agweddau da iawn tuag at ddysgu'r Gymraeg.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

3.2 Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Mae plant yn cyflawni safonau da yn eu medrau iaith llythrennedd a chyfathrebu ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae bron bob un o'r plant yn gwrando'n dda ar yr amrywiaeth o storïau a gyflwynir iddynt. Mae pob un ohonynt yn deall y cyfarwyddiadau a chyflwyniadau a roddir iddynt gan staff.

Dangosa'r rhan fwyaf o'r plant adalw da o ystod o hwiangerddi, ac ar y cyfan maent yn eu hynganu'n gywir. Defnyddiant eirfa Gymraeg a thermau pwnc penodol sydd yn cynyddu'n gyflym. Maent i gyd yn medru cyfathrebu eu hanghenion i staff y lleoliad.

Mae llawer ohonynt yn ddigon hyderus i sgwrsio gydag ymwelwyr am ei hunan ac am eu dyletswyddau fel 'meddygon' a 'nyrsys'.

Mae'r plant i gyd yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn dysgu eu trin yn gywir. Mae llawer ohonynt yn medru dehongli'r cynnwys yn dda ac yn medru cyfrannu'n effeithiol i'r trafodaethau.

Mae pob plentyn yn adnabod eu henwau wrth hunan-gofrestru yn y bore. Mwynhânt brofiadau gwneud marciau ac ysgrifennu i bwrpas penodol fel ysgrifennu llythyr at Siôn Corn.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

3.3 Datblygiad mathemategol

.

Mae plant yn cyflawni safonau da yn eu datblygiad mathemategol ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r plant i gyd yn cael pleser mawr wrth ganu amrywiaeth o gêmau rhifo a dysgu cysyniadau mathemategol newydd. Mae pob un ohonynt yn medru cyfrif gwrthrychau fel wyau, bisgedi a losin hyd at bump a thu hwnt yn ddidrafferth a maes o law i adnabod ac enwi'r rhifau hynny. Dysgant hefyd sut i gyfrif yn ôl o bump yn gywir.

Maent i gyd yn dod i ddeall ystyr *mwy na a llai na*; *trwm ac ysgafn*; *bach, canolig a mawr,* a'u defnyddio'n gywir yn eu gweithgareddau.

Gallant gydweddu parau o ddillad a'u didoli yn ôl nodweddion penodol, er enghraifft, yr hyn sydd yn mynd ar draed, pen a chorff.

Mae pob plentyn yn dod i adnabod y siapiau dau-ddimensiwn mwyaf cyffredin sydd i'w gweld o gwmpas yr ystafell ddysgu ac mewn gweithgareddau fel didoli blociau a lapio anrhegion.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

3.4 Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Mae gan blant wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r byd ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae gan bob plentyn ddealltwriaeth gynyddol gadarn o wahanol ddeunyddiau. Medrant, er enghraifft, gyfeirio at wahanol briodweddau cynhwysion coginio, fel

siwgr a menyn. Maent yn deall fod rhai deunyddiau fel toes yn gallu newid ei siâp a bod cynhwysion yn newid wrth eu cymysgu a'u coginio.

Mae'r plant i gyd yn adnabod rhai pobl fel meddygon a nyrsys sydd yn gweithio yn eu cymuned. Gall llawer ohonynt egluro'n dda eu swyddogaethau.

Mae gan y plant i gyd ddealltwriaeth dda o'r cysyniad o amser yng nghyd-destun digwyddiadau dyddiol, megis cyfnod eu byrbrydau ac amser mynd adref. Trwy edrych ar luniau ohonynt hwy eu hunain a chwarae gêm adnabod, maent yn gwybod eu bod yn newid dros gyfnod o amser.

Maent yn adnabod nifer o ffrwythau ôl eu henwau cywir.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

3.5 Datblygiad corfforol

Mae plant yn cyflawni safonau da yn eu datblygiad corfforol ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Llwydda pob un o'r plant i drin offer bach a gwrthrychau gyda rheolaeth gynyddol. Dônt i fedru trafod teganau bach, sbwng i argraffu, blociau adeiladu, brwsys paent, pensiliau a sisyrnau yn dda. Cyflawnant gytgord llaw llygad da wrth osod losin bach ar eisin eu bisgedi ac wrth chwarae gêmau taflu peli i gylch neu fagiau ffa at luniau o gerbydau.

Mae'r plant i gyd yn symud yn hyderus a diogel gyda rheolaeth a chydsymud cynyddol wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored. Gweithia llawer ohonynt yn egniol iawn wrth chwarae gyda beiciau a cheir. Maent yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau sydd yn ymwneud â goleuadau traffig.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

3.6 Datblygiad creadigol

Mae plant yn cyflawni safonau da yn eu datblygiad creadigol ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r plant i gyd yn medru perfformio nifer dda o hwiangerddi a chaneuon Cymraeg. Maent yn eu canu'n swynol ac yn cael llawer o hwyl gyda'r gwahanol symudiadau.

Caiff y plant i gyd foddhad mawr wrth chwarae rôl meddygon a nyrsys yn 'ysbyty'r' lleoliad. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'u dychymyg yn arbennig o dda ac yn cyfathrebu gydag argyhoeddiad.

Mae'r plant i gyd yn defnyddio ystod dda o ddefnyddiau a chyfryngau i gyfleu eu syniadau yn effeithiol. Datblygant eu medrau yn dda wrth iddynt addurno eu bisgedi, argraffu gyda'u dwylo a chreu hunanbortreadau ar blatiau papur yn seiliedig ar y thema gyfredol – Fi fy Hun. Medrant wneud dewisiadau addas am liwiau ac fe'u defnyddiant yn effeithiol.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

4.0 Ansawdd y ddarpariaeth addysgol

Ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant 3-4 oed

4.1 Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar amcanion clir ar gyfer gwerthoedd ac egwyddorion sydd i'w gweld yn amlwg yn y gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r plant yn cael eu hannog o hyd i gydweithio'n dda gyda'i gilydd. Cânt eu canmol am ymddygiad da ac fe'u dysgir yn effeithiol iawn i rannu ac aros tro pan fyddant am gyfrannu tuag at drafodaeth, neu ymuno â gweithgareddau poblogaidd.

Gwneir i blant deimlo'n arbennig ac fe gânt eu trin gyda gofal a pharch. Mae amser byrbrydau yn ddigwyddiadau dymunol iawn sydd yn rhoi cyfleoedd pellach i blant ddatblygu eu medrau cymdeithasol.

Cefnogir achosion da fel Plant mewn Angen ac elusennau dyngarol eraill.

Caiff y plant gyfleoedd da i ddatblygu'n ysbrydol. Cânt eu cyflwyno i storïau Beiblaidd poblogaidd ac fe gymerant ran yn nathliadau'r Nadolig trwy ddysgu carolau a pherfformio drama'r Geni. Cânt adrodd gweddi fer yn ddyddiol cyn ymadael â'r lleoliad.

Caiff plant eu cyflwyno i draddodiadau a diwylliant Cymru trwy gân, cerddoriaeth, storïau a dathliadau. Hyrwyddir datblygiad ieithyddol plant sydd â'r Gymraeg yn ail iaith iddynt, yn effeithiol iawn, er gosod sylfaen dda i'w haddysg yn y sector cyhoeddus.

Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau cyfleoedd priodol i blant ddysgu am draddodiadau sydd yn gysylltiedig â diwylliannau eraill ac fe gânt eu hannog i barchu amryfaliaeth.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

4.2 Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant

Mae ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r cynllunio o ansawdd da ac mae'n adlewyrchu'n llawn ofynion y Cyfnod Sylfaen. Cynllunnir ar gyfer darparu ystod o brofiadau eang a chytbwys ar draws y meysydd dysgu er sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd.

Caiff y gwaith ei drefnu o gwmpas cyfres o themâu tymhorol neu hanner tymhorol fel 'Teithio', 'Y Nadolig' a 'Fi Fy Hun', sydd yn ddigon hyblyg i gymryd i ystyriaeth ddiddordebau ac anghenion pob plentyn. Mae'r cynlluniau yn hybu cydraddoldeb hiliol a mynediad cyfartal i bawb, ynghyd â chyfleoedd i blant werthfawrogi amryfaliaeth o fewn y rhaglen.

Mae'r cynllunio wythnosol yn cynnig dilyniant priodol mewn dysgu. At ei gilydd, mae pwyslais da ar sicrhau cydbwysedd rhwng gweithgareddau sydd yn cael eu dewis gan blant a gweithgareddau gaiff eu harwain gan oedolion. Cynllunnir yn dda iawn o ran hyrwyddo medrau plant o fewn tasgau ffocws, ac mae llawer o'r gweithgareddau yn sicrhau cyfleoedd da iddynt ddatblygu eu gallu i ragfynegi a datrys problemau.

Caiff gweithgareddau eu dadansoddi'n ofalus ac mae'r arfarniadau yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gynllunio'r camau nesaf mewn dysgu.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

4.3 Ansawdd yr addysgu

Mae ansawdd yr addysgu yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae gan bob aelod o staff wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant i rai 3 i 7 oed yng Nghymru . Maent yn cydweithio'n dda fel tîm i gefnogi dysgu plant ym mhob un o feysydd profiad y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac fe'u gwerthfawrogant fel unigolion. Caiff y plant ofal, cefnogaeth ac arweiniad da ac mae hyn yn gwneud cyfraniad pwysig i'w hunanhyder. Llwyddir i hyrwyddo cydraddoldeb i bob plentyn trwy ethos cynhwysol ac fe gaiff plant eu cymell yn dda trwy ddarparu amgylchedd dysgu croesawgar, symbylol a dymunol.

Defnyddir ystod o strategaethau i herio ac annog plant i weithio'n bwrpasol a hyderus. Mae staff yn ymyrryd yn effeithiol yn y gweithgareddau ac mae'r cwestiynu pen agored a ddefnyddir ganddynt yn ymestyn a chyfoethogi dysgu plant yn arbennig o dda ac yn nodwedd gref o'r addysgu.

Caiff mewnbwn gwerthfawr oddi wrth athrawes gyswllt Partneriaeth Gwynedd ei werthfawrogi gan staff y lleoliad ac mae hyn wedi cael dylanwad positif ar eu gwaith.

Yn gyffredinol, mae'r adnoddau dysgu a ddefnyddir o ansawdd da ac yn hyrwyddo'r safonau mewn dysgu.

Diffygion
Mae'r ardal allanol eisoes wedi ei gydnabod yng nghynlluniau'r lleoliad fel maes datblygu pellach, ond ar hyn o bryd nid yw ei botensial fel cyfrwng dysgu wedi ei wireddu'n llawn.

4.4 Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant ac adroddiadau i rieni a gofalwyr

Mae ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant ac adroddiadau i rieni a gofalwyr yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r staff yn adnabod plant yn dda a chaiff rhieni a gofalwyr gyfleoedd rheolaidd i drafod cynnydd yn anffurfiol cyn ac ar ddiwedd y sesiynau dyddiol.

Mae gwaith monitro anffurfiol staff o'r plant yn effeithiol iawn ac fe lwyddir yn gynnar i adnabod anghenion unigolion a chysylltu gydag asiantaethau cymorth os oes angen.

Cedwir cofnod o arsylwadau digymell ar ddatblygiadau arwyddocaol unigolion ac mae rhain ynghyd â'r asesiadau cynlluniedig a wneir ar blant ym mhob agwedd o'r meysydd dysgu, dros gyfnod o amser, yn cyfrannu at ddarlun llawn o'u cyflawniad. Gwneir defnydd effeithiol o wybodaeth asesu wrth gynllunio a gwella'r dysgu.

Caiff rhieni gyfleoedd ffurfiol i ymweld â'r lleoliad yn nhymor yr Haf ac yn yr Hydref, ac fe gaiff gwaith gorffenedig ei ddanfon adref i'w ddathlu neu arddangos ar furiau'r ystafell.

Darperir adroddiadau ysgrifenedig i rieni yn ystod tymor yr Haf sydd yn adrodd ar gynnydd ym mhob un o'r meysydd dysgu.

Mae'r lleoliad newydd gyflwyno cyfle i rieni gyfrannu i'r trefniadau asesu drwy lenwi taflen fer sy'n rhoi gwybodaeth am rai o nodweddion personol eu plant. Mae hyn yn arfer da

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

4.5 Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned

Mae'r nodweddion da i ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned yn gorbwyso'r diffygion.

Nodweddion da
Mae'r berthynas rhwng y staff â rhieni a gofalwyr plant yn dda ac fe welwyd bod rhieni a gofalwyr yn cael eu croesawu yn gynnes gan staff y lleoliad. Cafwyd cefnogaeth dda oddi mewn yr holiaduron cyn-arolygiad a ddychwelwyd ac mewn sgyrsiau anffurfiol a gynhaliwyd gan yr arolygydd.

Darperir dogfen wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer rhieni newydd ac fe sicrheir fod y llif gwybodaeth yn gyson, ar lafar, trwy gyfrwng cylchlythyron a'r hyn gaiff ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.

Mae rhieni'n gefnogol i weithgareddau codi arian niferus sy'n hanfodol er mwyn sicrhau iechyd ariannol y lleoliad. Mae'r targedau ariannol yn wybodus i bawb trwy'r hyn a arddangosir yn y cyntedd ac mae hyn yn sbardun ychwanegol i fwrw ymlaen â'r gwaith.

Ceir cydweithrediad da rhwng Ysgol y Gelli a'r lleoliad ac fe sicrheir fod y trosglwyddiad dyddiol o blant rhyngddynt yn effeithiol.

Caiff y plant gyfleoedd o bryd i'w gilydd i droedio'r tiroedd o gwmpas y safle ac arsylwi ar yr amgylchedd. Trefnwyd yn ddiweddar i ymwelydd iechyd ymweld â'r lleoliad fel rhan o brofiadau'r plant ar y thema Fi Fy Hun.

Diffygion
Ni wneir defnydd digonol o'r amgylchedd leol ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant.

Ar hyn o bryd, nid oes manylion am feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen yn gynwysedig yn yr wybodaeth a ddanfonir i rieni newydd.

4.6 Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant

Mae'r lleoliad yn cyfrannu'n dda tuag at les plant ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae staff yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu safon uchel o ofal a chynhaliaeth i bob unigolyn. Ceir ystod o bolisïau a gweithdrefnau mewn lle sydd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at les plant.

Mae'r staff i gyd wedi derbyn gwiriad priodol gan Swyddfa Cofnodion Troseddol. Maent yn ymwybodol o'r trefniadau lleol perthnasol ar gyfer amddiffyn plant ac mae'r mannau cyswllt yn glir o fewn polisi'r lleoliad ac ar yr hysbysfwrdd i rieni petai angen.

Mae'r plant yn cael eu goruchwylio'n dda bob amser. Cedwir llyfr damweiniau priodol a chofnodir unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud â lles plant. Mae asesiadau risg wedi eu cwblhau'n drylwyr iawn ar ystod o feysydd, gan gynnwys mynd a phlant am dro.

Dengys y cofnodion bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn fisol.

Mae'r plant yn derbyn bwydydd iach yn ystod eu byrbrydau ac fe sicrheir safonau hylendid uchel gydol yr amser.

Cedwir drysau ar glo yn ystod sesiynau ac fe oruchwylir plant yn dda wrth eu trosglwyddo i rieni neu symud o'r ysgol i'r lleoliad.

At ei gilydd, mae'r adnoddau dysgu mewn cyflwr da; maent yn addas ar gyfer yr ystod oed ac o fewn gafael diogel i'r plant.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

4.7 Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y lleoliad

Mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae arweinydd yn arwain y staff yn dda ac fe gydweithiant yn dda fel tîm. Maent yn llwyddo i gynnig ymdeimlad clir o bwrpas a chyfeiriad i'w gwaith ac mae'r holl bolisïau a'r arferion beunyddiol yn hyrwyddo safonau da a chyfleoedd cyfartal i bawb.

Mae'r amgylchedd ddysgu yn symbylol ac mae'r mannau cyhoeddus yn arbennig o groesawgar.

Mae'r lleoliad yn derbyn cefnogaeth dda gan ei Bwyllgor Rheoli sydd yn cyfarfod fel arfer yn fisol. Ceir cydweithio effeithiol gydag athrawes gysylltiol Partneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Gwynedd, a Mudiad Ysgolion Meithrin.

Gweithredir strategaethau effeithiol i gefnogi datblygiad staff ac maent yn barod iawn i fynychu hyfforddiant a gynigir gan Bartneriaeth Gwynedd a hefyd Mudiad Ysgolion Meithrin. Gwelir effaith gadarnhaol hyfforddiant ar ansawdd y profiadau a ddarperir i'r plant. Caiff staff eu gwerthuso yn flynyddol gan y Pwyllgor Rheoli ac mae trefniadau da mewn lle ar gyfer anwytho aelodau newydd o staff.

Mae'r gweithdrefnau sydd ar waith yn ymwneud â hunan-arfarnu wedi targedu meysydd sydd angen gwella ac mae'r lleoliad yn cynllunio'n briodol ar gyfer hyn.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

4.8 Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer arolygu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf

Dyma'r arolygiad cyntaf o'r lleoliad gan Estyn

5.0 Argymhellion

Mae angen i'r lleoliad: A1: Barhau i gynnal ac adeiladu ar y nodweddion da a welir yn y safonau a gyflawnir gan blant. A2: Wneud mwy o ddefnydd o'r amgylchedd leol ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. A3: Fwrw ymlaen gyda'r cynlluniau ar gyfer datblygu'r ardal allanol.

Rhaid i'r darparwr lunio cynllun gweithredu ymhen 40 diwrnod gwaith, neu 45 diwrnod gwaith os oes angen cyfieithu'r cynllun i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg, gan ddangos sut eir i'r afael â'r materion a nodir uchod. Rhaid rhoi'r cynllun gweithredu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y lleoliad. Rhaid anfon copi o'r cynllun gweithredu at Gadeirydd y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant neu'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, fel y bo'n briodol, ac i'r Awdurdod Lleol. Bydd arfarniad o'r camau a gymerwyd yn ffurfio rhan o'r arolygiad nesaf.